Cofnodion Cyfarfod Arbenig Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher Ionawr 26 2023, cyfarfod Zoom am 6.33yh (i adael pawb i ymuno)

Presennol: Cynghorwyr Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Morgan Rees, Lara Pritchard, Jan Tomlinson, Philip Stevens & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Dim

Arsylwi: Cynghorydd Sir Pauline Edwards.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod arbennig cyllid mis Ionawr.

147 Datganiad Diddordeb Personol:

Cynghorydd	**Eitem**	
Roy Tickle	3 – Cyllideb neuadd y dref	Rhagfarnllyd
Gaynor Wood Tickle	3 – Cyllideb neuadd y dref	Rhagfarnllyd

148 I drafod a pharatoi cyllideb gwario'r cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/2024 yn dilyn cyflwyniad gan Glerc y Dref.

Dangosodd clerc y dref adroddiadau ariannol i'r Cynghorwyr tref yn ymwneud â'r gyllideb gyfredol, gwariant cyfoes ynghyd â thaliadau posibl i'w gwneud tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rhoddodd clerc y dref gyflwyniad byr yn manylu ar bob pwnc ariannol yng ngwariant blynyddol y Cyngor Tref. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar y cyllid mewn manylion i sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei gynnwys. Cadarnhaodd y clerc y byddai'r gyllideb ar gyfer 2023/2024 yn £331,100.

Caniataodd y clerc amser i'r Cynghorwyr dreulio'r wybodaeth a ddarparwyd ac yna gweithredu sesiwn holi ac ateb. Atebwyd y cwestiynau i gyd a derbyniwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

149 I drafod a gosod ffigwr archebiant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022

Rhoddodd y clerc wybodaeth yn ymwneud a'r symiau sy'n ofynnol i dalu'r gwariant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Trafodwyd hyn gan y cynghorwyr a chytiwyd ar swm archebiant o £66 yr aelwyd. Mae'r archebiant yn aros yr un fath a'r flwyddyn flaenorol. Byddai hyn yn rhoi ffigur archebiant o £233,442 yn ogystal â defnyddio £77,000 o'r cronfeydd wrth gefn a £20,658 a'r credydau a dderbyniwyd.
Cytunwyd ar y ffigwr gwariant a'r ffigyrau archebiant gan y cynghorwyr i gyd.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 19.17yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....